

08/06/22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gobeithio bod y llythyr hwn yn eich cyrraedd chi i gyd yn ddiogel ac iach. Hoffwn eich hysbysu o ambell beth i'ch helpu i baratoi at drosglwyddiad eich plentyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ym Mis Medi.

Gwisg Ysgol - Wrth feddwl am baratoi i'ch plentyn ddod i Fryn Tawe, hoffwn eich atgoffa i archebu'r wisg ysgol gywir a'r cit Addysg Gorfforol (gweler y ddolen yma: <https://www.youtube.com/watch?v=q900arr1Yaw>) o siop Bergoni, yn Llansamlet cyn diwedd Mis Gorffennaf er mwyn sicrhau y bydd gwisg ysgol eich plentyn yn barod gyda chi cyn Mis Medi. Dyma ddolen i'w safwe: <https://www.bergoni.co.uk/collections/bryntawe>

Nos Lun 4ydd o Orffennaf - Am 6 o'r gloch bwriadwn gynnal noson ar gyfer rhieni a disgyblion Blwyddyn 6 yn Neuadd Cilfwnwr Ysgol Bryn Tawe. Fe fydd rhieni yn cael cyfle i holi cwestiynau a chael gwybod ym mha ddosbarth fydd eu plentyn. Fe fydd y disgyblion yn cael cyfle i gwrdd â'u cyd-disgyblion a gwneud gweithgareddau hwylus i ddechrau dod i adnabod ei gilydd.

Yr Wythnos Bontio:

Dydd Mawrth yr 12fed o Orffennaf – Diwrnod o wersi ym Mryn Tawe. Fe fydd bws yn gadael yr ysgol gynradd am tua 9 o'r gloch yn y bore gan gyrraedd Bryn Tawe erbyn 9.30am. Mi fydd y disgyblion y dychwelyd yn ôl i'ch ysgol gynradd erbyn diwedd y dydd. Fe fydd angen i'ch plentyn ddod â brechdanau neu arian cinio – tua £3 (arian mân yn unig) er mwyn prynu cinio. Fe fydd cinio rhad yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn ei dderbyn.

Dydd Mercher y 13eg o Orffennaf – Diwrnod o weithgareddau datrys problemau a gweithio fel tîm ym Mryn Tawe. Fe fydd cludiant wedi'i drefnu i Fryn Tawe erbyn 9:30am ac yn ôl i'ch ysgol gynradd erbyn diwedd y dydd. Fe fydd angen i bob plentyn ddod â brechdanau. Fe fydd pecynnau bwyd yn cael eu darparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn derbyn cinio rhad. Fe fydd angen i ddisgyblion wisgo dillad addas ar gyfer gwneud gweithgareddau corfforol e.e. cit Addysg Gorfforol yr ysgol gynradd.

Dydd Iau y 14eg o Orffennaf – Diwrnod o gystadlu yn Eisteddfod Hwyl Bryn Tawe. Fe fydd cludiant wedi'i drefnu i Fryn Tawe erbyn 9:30am ac yn ôl i'ch ysgol gynradd erbyn diwedd y dydd. Fe fydd angen i bob plentyn ddod â brechdanau. Fe fydd pecynnau bwyd yn cael eu darparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn derbyn cinio rhad.

Dydd Gwener y 15fed o Orffennaf - Taith i Barc Antur Heatherton, Dinbych-y-Pysgod. Fe fydd bws yn casglu eich plentyn o'r ysgol gynradd yn y bore. Fe fydd angen i bob plentyn ddod â brechdanau. Fe fydd pecynnau bwyd yn cael eu darparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn derbyn cinio rhad. Bydd angen casglu eich eich plentyn o'r ysgol gynradd oherwydd bwriadwn ddychwelyd wedi amser gorffen yr ysgol. Peidiwch â gadael i'ch plentyn ddod ag offer gwerthfawr e.e. ffônau symudol, chwaraewyr cerddoriaeth a.y.b. am resymau diogelwch. Mae siop yn y parc, felly bydd ychydig o arian yn ddefnyddiol – dim mwy na £10.

Os oes unrhyw gwestiwn neu bryder gennych yna cysylltwch â mi yn yr ysgol.

Yn gywir, Miss Angharad Jenkins (Cydlynnydd Pontio)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyroedd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabyntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Dear Parent/Guardian,

I hope this letter finds you safe and well. I would like to inform you of a few things to assist you in preparation for the arrival of your child in Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe in September.

School Uniform - Whilst you're thinking of preparing your child for the move to Bryn Tawe, I would like to underline the importance of ordering the school's uniform and PE kit (see here for details: <https://www.youtube.com/watch?v=q900arr1Yaw>) from the Bergoni shop, in Llansamlet before the end of July, in order to ensure they have their school uniform ready for September. See their website here: <https://www.bergoni.co.uk/collections/bryntawe>

Monday July 4th - We intend to hold a meeting for parents and pupils of Year 6, starting at 6:00 p.m. in Bryn Tawe's Cilfwnwr hall. Parents will have the opportunity to ask questions and find out in which class their child has been placed. Pupils will meet their classmates and will take part in some fun activities in order to begin to get to know each other.

The Transition Week

Tuesday July 12th – A day of lessons at Bryn Tawe. Transport will be arranged from the primary school to arrive in Bryn Tawe by 9:30am and will arrive back in your primary school by the end of the school day. The pupils will need to bring sandwiches or some lunch money – approximately £3 (loose change only) to be able to buy lunch. Pupils who receive free school meals will be provided for.

Wednesday July 13th – A day of problem solving and team building activities at Bryn Tawe. Transport will be arranged to and from Bryn Tawe from your primary school. All pupils will need to bring a packed lunch. Packed lunches will be provided for pupils who receive free school meals. Pupils should wear clothes suitable for taking part in physical activity e.g. the primary school's PE kit.

Thursday July 14th – A day of competing in Bryn Tawe's Fun Eisteddfod. Transport will be arranged to and from Bryn Tawe from your primary school. All pupils will need to bring a packed lunch. Packed lunches will be provided for pupils who receive free school meals.

Friday July 15th – A trip to Heatherton Activity Park. A bus will pick up your child from the primary school in the morning and will arrive back at the primary school at around 4pm (after school hours). All pupils will need to bring a packed lunch. Packed lunches will be provided for pupils who receive free school meals. Please do not allow your child to bring any valuable items e.g. mobile phones etc. for safety reasons. There is a shop at the park, therefore a small amount of money would be useful – no more than £10.

If you have any queries, please don't hesitate to contact me at school.

Yours faithfully, Miss Angharad Jenkins (Transition Co-ordinator)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabyntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

